# Papur Elim, Heol Awst a'r Priordy

GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN



**Dos, dywed ar y mynydd, ledled y bryn ac ymhob man,**
**dos, dywed ar y mynydd am eni Iesu Grist.**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 12**
**PAPUR MEDI 2025**

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## Goleuni ar fryn

**Croeso 'nôl i chi i gyd wedi gwyliau'r haf. Ar ôl 'Steddfod brysur a llwyddiannus yn Wrecsam, braf oedd cael cyfle i dreulio ychydig ddyddiau yn Nyfnaint a Chernyw.**

**Pan oeddwn yn blentyn, fe fyddem yn clywed sôn yn aml bod cwch yn hwylio o Bier y Mwmbwls yn Abertawe i 'Cwm'. Gan fy mod yn byw yng Nghwm Tawe, roedd yn ddryswch i mi pam yn y byd roedd angen cwch i fynd o'r Mwmbwls i fyny'r '*Cwm*'! Ond buan y sylweddolais taw *'Cwm'* i'r bobl leol yn y cyd-destun hwn oedd *'Combe'* a taw i Ilfracombe y byddai'r cwch yn hwylio o Bier y Mwmbwls!**




**Tref glan-y-môr ddigon prysur yw Ilfracombe ac efallai nad mis Awst yw'r amser gorau o'r flwyddyn i alw heibio ond mentro bu fy hanes, tra oeddwn yn pasio, a mwynhau awr fach yn yr harbwr.**



**Uwchben yr harbwr mae bryncyn o'r enw *Lantern Hill* ac arno saif Capel sy'n dyddio 'nôl i'r 14 ganrif. Fe'i adeiladwyd yn 1321 fel man addoli i'r morwyr a oedd yn byw a gweithio yn ardal yr harbwr.**


**Cafodd y capel ei ddefnyddio fel goleudy 'nôl yn nyddiau Harri'r 8fed ac ychwanegwyd tŵr yn cynnwys lamp ynddo yn 1800.**

**Enwyd y Capel yn Gapel Sain Nicholas sef nawddsant morwyr (yn ogystal â bod yn nawddsant y plant).**

**Ar ôl i Harri'r 8fed ddiddymu'r mynachlogydd yn 1540 daeth y capel yn dŷ preswyl i geidwad y goleudy a'i deulu. Wedi i'r**

**adeilad gychwyn cwympo'n adfail daeth y Clwb Rotary lleol i'r adwy yn 1962 a'i adnewyddu. Cynhelir oedfa yng Nghapel Sain Nicholas yn achlysurol ond mae ei olau o'i dŵr yn pelydru bob nos ar hyd y flwyddyn yn arwain cychod yn ddiogel i'r harbwr.**

**Onid oes rhywbeth hyfryd yn y syniad bod goleuni lle o addoliad yn arwain eraill yn ddiogel ar eu taith? Onid dyna oedd dymuniad Iesu i'w ddisgyblion ac i ninnau wrth iddo ddweud '*Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn … Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.'***




**Wrth gychwyn tymor newydd yn hanes Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin gweddïwn y bydd i eglwysi'r ofalaeth hon fod yn oleuni yn arwain trigolion ein cymunedau yn ddiogel ar daith bywyd.**

**GWEDDÏWN**

**Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,**
**tro di ein nos yn ddydd;**
**pâr inni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi**
**dan lewyrch gras a ffydd.**



**AMEN**
**W Rhys Nicholas**



## DARLLENIADUR



| Mis Medi | Darlleniad |
|---|---|
| Wythnos 1 | Salm 45 |
| Wythnos 2 | Salm 125 |
| Wythnos 3 | Salm 19 |
| Wythnos 4 | Salm 1 |

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**EDWARD a EIDDWYN MORGAN**

**HUW a CARWEN DAVIES**

**MATTIE JONES**

**ELISABETH EVANS**

**HEATHER WILLIAMS**

**MAUREEN JONES a HAZEL JULIAN**

**BRIN ENOCH**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***

YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?
Cyswllt
PHILIP JONES
Trysorydd
☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk



Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:

'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds
30-91-68
Acc no: 00229403

neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.



***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***

***Y PRIORDY***

***Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da***

**Catrin Heledd Jones**




## Sul Sbesial,13 Gorffennaf 2025

**Cynhaliwyd y Sul Sbesial eleni yn Neuadd Bronwydd ar brynhawn bendigedig o haf.**

**Croesawyd pawb yn gynnes gan y Llywydd Jean Lewis cyn iddi gynnig gair o weddi. Band y Priordy oedd yn cyfeilio yn hwyliog i'r holl emynau. Ysgol Sul Capel y Graig, Tre-lech oedd yn gyfrifol am y rhannau arweiniol, cyfraniad graenus, hyfryd.**

**Yna wedi'r ail emyn, cyflwynwyd y gwestai arbennig gan Jean sef Aled Huw, y darlledwr, profiadol rhyngwladol. Cafodd groeso cynnes a ninnau fel aelodau o'r Priordy mor falch ohono gan ein bod yn ei gofio yn blentyn bach ffyddlon yn ein Hysgol Sul. Roeddem yn hynod o falch o gael cwmni ei fam, Eurwen hefyd yn y rhes flaen.**




**Cynefin a phobl oedd y dylanwadau pennaf arno meddai cyn iddo'n tywys ar daith, oedd yn cynnwys uchafbwyntiau a phrofiadau dirdynnol ei yrfa fel darlledwr rhyngwladol ac yntau newydd ymddeol ar ôl 35 mlynedd.**

**Yn gyntaf, tywyswyd ni i Efrog Newydd ar 11 Medi 2001 neu ar 9/11 pan ymosodwyd ar y tyrrau enwog yno. Soniodd am y profiad o aros mewn gwesty, digon o le i 500 o ymwelwyr a dim ond dyrnaid o newyddiadurwyr oedd yn aros yno. Profiad o ddarlledu a chael ymateb pobl pan oedd gwlad fwyaf pwerus y byd wedi ei siglo i'w seiliau.**

**Mynychodd angladd Pab Ioan Paul II a'r ymateb anhygoel a gafwyd yn ystod yr achlysur hynny. Darlledu ar ddamwain ym maes glo'r Gleision ym Medi 2011- a'r cysylltiad agos a ddatblygodd rhyngddo a theulu Garry Jenkins, un a laddwyd yn y trychineb.**

**Treuliodd 3 mis y sôn am achos erchyll Rosemary West a'i gŵr a fu'n gyfrifol am ladd cynifer o bobl ifanc a oedd yn eu gofal.**

Cofnodi'r sgandal a'r berthynas rhwng yr Arlywydd Clinton a Monica Lewinsky.

Heb unrhyw amheuaeth un o'r profiadau dirdynnol a effeithiodd arno oedd tystio i'r hil-laddiad yn Rwanda ym 1994. Yno lladdwyd tua 800,000 o bobl y Twtsi a gweld yr hyn a oedd yn cyfateb i hanner poblogaeth Cymru yn newynu.

Ym 2005, teithio i New Orleans ar ôl gweld effaith dychrynllyd Corwynt Katrina. Yr hyn a synodd Aled oedd ymateb llugoer yr awdurdodau gan fod mwyafrif poblogaeth New Orleans yn ddu. Bu'n dyst i 8 etholiad arlywyddol a'r mwyaf ysbrydoledig ohonynt oedd ethol Barack Obama. Dyma gân a ysbrydolwyd gan y digwyddiad:

Rosa sat, so Martin could walk,
Martin walked so Barack could run,
Barack ran, he ran and he won,
So that all our children could fly.

Daeth ei sgwrs i ben wrth iddo nodi taw un o uchafbwyntiau ei yrfa yn ddi-os oedd darlledu yn ystod angladd Nelson Mandela ym 2013.

Roedd ymateb gynnes y gynulleidfa yn dyst eu bod wedi cael prynhawn wrth eu bodd. Mae Aled yn gyfathrebwr heb ei ail.

Daeth y prynhawn i ben wrth i blant yr Ysgolion Sul ailymuno â ni a chlywyd am eu profiadau'n adeiladu tai, paentio cerrig wrth glywed hanes y Ddameg, Y Tŷ ar y Graig. Gwnaed y diolchiadau gan Jean a daeth y cyfan i ben wrth i ni gydganu'r emyn "O rho dy bwys ar freichiau'r Iesu". Mwynhawyd paned a sgwrs cyn troi am adre.



**CWRDD SEFYDLU**
**Cynhelir Cwrdd Sefydlu Elinor Wyn Reynolds yn Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr ar Nos Fercher, 24 Medi am 7 yn y Priordy**

***Croeso cynnes i bawb***

# SUL SBESIAL YN NEUADD BRONWYDD









## COFIO JOHN WESLEY WORK IAU



***GANED*** John Wesley Work Iau yn Nashville, Tennessee 6 Awst 1871. Roedd yn addysgwr a cherddolegydd ac fe'i cydnabyddir fel y casglwr cerddoriaeth gwerin Affro-Americanaidd cyntaf.

Ffurfiwyd grwpiau corawl gan Work tra oedd ym Mhrifysgol Fisk tua diwedd y 1800au. Daeth yn addysgwr yn Fisk yn ddiweddarach.

Bu'n casglu caneuon caethweision ac emynau Negroaidd gyda'i wraig, Agnes Haynes, a'i frawd Frederick Jerome Work. Un ohonynt oedd *Dos, dywed ar y mynydd* – cân gosbel y mae rhai'n credu iddo gael rhan yn ei chyfansoddi.

Yn ddiweddarach, ffurfiodd ei gwmni cyhoeddi ei hun, Work Brothers a Hart. Roedd hefyd yn gyfarwyddwr Cantorion Jiwbili Fisk.

Bu farw John Wesley Work Iau. ar 7 Medi 1925.

Roedd mab Work, John Wesley Work III, yn gyfansoddwr a chasglwr caneuon yn ogystal.



Mae pedwar pennill yr emyn 'Dos dywed ar y Mynydd' ynghyd â chytgan yn Caneuon Ffydd (Rhif 476) yn yr adran Yr Adfent a'r Geni. Priodolir dau ohonynt i Work. Mae'r ddau bennill arall a'r cytgan yn anadnabyddus.

Dafydd Owen (1910-2002), Gweinidog gyda'r Annibynwyr a Phrifardd. sy'n gyfrifol am y cyfieithiad. Bu ar un adeg yn weinidog Gibea, Brynaman

Cynhwysir *Dos, dywed ar y mynydd*, yn y gyfrol Carolau a'u Cefndir, E Wyn James. Cyfieithiad Edmund Owen o benillion gwreiddiol Work sydd yn y gyfrol hon ynghyd â chyfieithiad Dafydd Owen o'r cytgan traddodiadol. Mae geiriau'r cytgan ar ein tudalen blaen.

Pam sôn am garolau Nadolig nawr, meddech chi? Wel, pam lai! Yn naturiol, rydyn ni'n cofio Work a fu farw gan mlynedd yn ôl yn union i'r

mis hwn. Cofiwn hefyd fod llawer o garolau'n cynnwys themâu diamser sy'n eu gwneud yn addas i'w canu y tu hwnt i Ŵyl y Geni. Maen nhw hefyd yn cynnig negeseuon o obaith a llawenydd drwy gydol y flwyddyn.

***DYMA*** gynnwys fersiwn llawn y garol fel y mae'n ymddangos yn Caneuon Ffydd:


*Dos, dywed ar y mynydd, ledled y bryn ac ymhob man,*
*dos, dywed ar y mynydd am eni Iesu Grist.*

*Tra gwyliai y bugeiliaid y praidd drwy'r noson hir,*
*yn syth o'r nef disgleiriodd goleuni dwyfol, clir.*

*A hwythau, wedi'i weled, aent ar eu gliniau 'nghyd,*
*ac yna mynd ar unwaith i geisio Prynwr byd.*

*Pan geisiais innau Iesu, fe'i ceisiais nos a dydd,*
*erfyniais am ei gymorth, arweiniodd fi yn rhydd.*

*Fe'm gwnaeth yn wyliwr cyson ar furiau dinas Duw,*
*a'm rhawd, fi Gristion eiddil, mor ddedwydd, dedwydd yw.*



## Adroddiad Cymorth Cristnogol

Diolch i bawb am eich ymdrechion a'ch cefnogaeth i gasgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, i'r ddwy oedfa - Cymraeg yn y Tabernacl a Saesneg yn Sant Pedr a hefyd i'r Bore Coffi yng Nghanolfan y Bedyddwyr, Heol Awst. Diolch am y croeso a'r cydweithrediad yn y tri lleoliad.

Hyd yn hyn daeth yr arian yma i law: Cyfraniadau o £1,510 drwy'r eglwysi hyn: Heol Awst, Eglwys Llangynnwr, Bedyddwyr Heol Awst, Y Priordy, Wesle, Elim, Babell Zeion Newydd a Sant Pedr a oedd yn cynnwys casgliad yr oedfa Saesneg a £131 - casgliad yr oedfa Gymraeg yn y Tabernacl. Elw'r Bore Coffi oedd £550. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o £2,191.00.

Os oes arian mewn llaw gyda'chi eglwys chi, a fyddech yn fodlon ei drosglwyddo i ni yn 75 Heol Dŵr, yn fuan er mwyn i ni ddod â chyfrifon yr Wythnos i ben.




**AR GYFER EICH DYDDIADURON. Bydd ein Bore Coffi Nadolig yng Nghapel Wesle ar ddydd Sadwrn 29 TACHWEDD 2025.**

## CINIO DYDD SUL YR OFALAETH

**Pris**
**Oedolion: £22**
**Plant: £13**

Dydd Sul, 21 Medi
Gwesty'r Llwyn Iorwg
am 1.15yp



Enwau i...
Bancyfelin: Joanne
Cana: Mair
Elim: Ann
Heol Awst: Olga
Priordy: Rhian J

**GŴYL CANOL DREF**

**PABELL EIN GOFALAETH**


























**Stondin Gŵyl Canol Dref**

**Bu Stondin yr Ofalaeth yn llawn bwrlwm yn ystod yr Ŵyl Ganol Dref eleni.**

**Trefnwyd cystadleuaeth i blant a thros 200 wedi cystadlu! Roedd cyfle i'r plant wneud crefftau a chwarae gemau y tu mewn a thu allan i'r babell. Braf hefyd oedd gweld nifer o bobl yn aelodau a ffrindiau yn galw heibio am sgwrs. Diwrnod llwyddiannus iawn i ni yn wir.**

**Diolch yn fawr iawn i'r tîm o wirfoddolwyr o 5 eglwys yr Ofalaeth a fu'n bresennol ar ein stondin yn eu tro drwy'r dydd ar ddiwrnod poeth ofnadwy!**

**Brwydro dros Hawliau Dynol**
**Ymgyrchwyr Gyda'n Gilydd yng Nghymru**

**A oes rhaid i blant Gaza farw? A oes rhaid i ffoaduriaid foddi?**

**Mae gan Gymru hanes anrhydeddus o sefyll dros hawliau dynol. Gan gofio hynny, rydym yn gwahodd pawb sydd o'r un argyhoeddiad yng Nghymru – sefydliadau ac ymgyrchwyr fel ei gilydd – i ymuno â ni ym Mhrifysgol Aberystwyth ar Ddydd Sadwrn 18 Hydref 2025 am ddiwrnod dwys o gynllunio ar gyfer gweithredu.**

**Ewch i https://www.trybooking.com/uk/EXSX i neilltuo lle.**

**Anogwch eich ffrindiau a'ch cydweithwyr i gymryd rhan. Mae cymaint y gallwn ni ei wneud gyda'n gilydd.**

**Am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu ag Eirlys Owen**

# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'LL'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Lladd dau aderyn ag un --- |
| | |
| 2 | Lladd llygoden a'i --- |
| | |
| 3 | Llaes cynffon ci o flaen … |
| | |
| 4 | Llais deilen yn y gwynt a darf gydwybod --- |
| | |
| 5 | Llawer a sieryd llawer o --- |
| | |
| 6 | Llawer gwir gorau ei --- |
| | |
| 7 | Llawer o ddŵr a â heibio i'r rhod heb yn wybod i'r --- |
| | |
| 8 | Lle bo ewyllys y bydd --- |
| | |
| 9 | Lle bo mwg y bydd --- |
| | |
| 10 | Llon llygod lle ni bo --- |

Atebion ar Dudalen 22

**Peter Hughes Griffiths**




## Adnodau yn y Gegin

***MAE*** Meinir y wraig a minnau wedi bod yn eistedd ar y clustogau sydd ar gadeiriau ein cegin ers blynyddoedd bellach. Maen nhw'n glustogau o gefndir golau gyda lluniau gwahanol blanhigion, ffrwythau, dail a blodau wedi eu gosod drostyn nhw. Ryn ni wedi cyfeirio mwy nag unwaith at brydferthwch yr holl blanhigion. Ond yn ddiweddar wrth edrych ar y clustogau, fe sylwais am y tro cyntaf, fod mân ysgrifen o dan bob planhigyn, a dyma fynd ati i edrych yn fanylach. Er mawr syndod i mi roedd yr ysgrifen yn nodi pa adnod ym mha bennod y cyfeirir at y planhigion a'r ffrwythau a'r blodau hyn yn y Beibl.

Wel, dyma fynd ati a throi tudalennau Y Beibl Cymraeg Newydd er mwyn gweld beth yn union yr oedd pob adnod yn cyfeirio ato ar bob clustog.

O dan y llun o'r winwydden - Efengyl Ioan, Pennod 15 a'r Adnod 1af - "*Myfi yw'r wir winwydden a'm Tad yw'r gwinllannwr*."




Yna, o dan glwstwr o blanhigion eraill – Caniad Solomon, Pennod 4 ac Adnodau 13 a 14: "*Y mae dy blanhigion yn berllan o bomgranadau, yn llawn o'r ffrwythau gorau, henna a nard. nard a saffrwn, calamis a sinamon, hefyd yr holl goed thus, myrr ac aloes a'r holl berlysiau gorau."*

Dyma rai enghreifftiau eraill i chi o'r hyn sydd ar y clustogau.

Genesis Pennod 3 ac Adnod 73: *"Yna, agorwyd eu llygaid ill dau i wybod eu bod yn noeth, a gwiniasant ddail ffigysbren i wneud ffedogau iddynt eu hunain."*

Genesis Pennod 8 Adnod 11: "*A phan ddychwelodd y golomen ato gyda'r hwyr, yr oedd yn ei phig ddeilen olewydd newydd ei thynnu.*" Trowch i Exodus Pennod 30 ac Adnod 34 ac fe gewch: "*Dywed yr Arglwydd wrth Moses – Cymer berlysiau, sef stacte, onycha a galbanum, ac ynghyd a'r llysiau hyn, thus pur, cymer yr un faint o bob un hefyd.*"

Brenhinoedd 1, Pennod 6 ac Adnodau 14/15; "*Adeiladodd Solomon y tŷ a'i orffen; a byrddiodd barwydydd y tŷ ag ystyllod cedrwydd a'u coedio o'r llawr hyd dulathau'r nenfwd a llorio'r tŷ a phlanciau ffynidwydd.*"

Mathew Pennod 23 ac Adnod 23 – "*Gwae chwi ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr, oherwydd yr ydych yn talu degwm o fintys ac anis a chwmin,,,*"



***PWY*** tybed a gynlluniodd y clustogau hyn sydd yn ein cegin, a phwy oedd y gwneuthurwyr? Mae Meinir a fi mor falch bellach bod rhywun rhywle wedi gweld yn dda i addurno ein cegin gydag adnodau o'r Beibl sy'n cyfeirio at bob math o blanhigion.




***Golwg newydd ar y stori garu drasig enwog, sy'n gosod y ffrae ffyrnig rhwng y teuluoedd Montague a Capulet yng nghymdeithas dwyieithog Cymru***

**ROMEO A JULIET**

**Steffan Cennydd – Romeo**
**Annes Elwy - Juliet**

**Ffwrnes, Llanelli**
**Mercher / Iau**
**22-23 Hydref 2025 – 7.30**

**Tocynnau: £18 | £20**

***Bydd y cynhyrchiad arloesol hwn yn plethu'r Gymraeg a'r Saesneg, gan archwilio'r hunaniaeth Gymreig a chynnig safbwynt newydd ar ddrama anfarwol Shakespeare***

**CYFRES YR EGLWYSI ANGHYFFREDIN**

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**

**EGLWYS KIRUNA, SWEDEN**



**Adeilad eglwysig yn Kiruna, Sweden yw Eglwys Kiruna. Mae'n un o adeiladau pren mwyaf Sweden.**

**Cafodd yr adeilad ei ddylunio gan y pensaer Gustaf Wickman.**

**Cafodd yr eglwys ei symud bum cilomedr i'r dwyrain yn ystod Mis Awst 2025 i ganolfan ddinesig newydd. Gwnaethpwyd hynny i'w hachub rhag daear sy'n ymsuddo a thwf ym mwynglawdd mwyn haearn tanddaearol mwya'r byd.**

**Mae'r symudiad hwn yn rhan o brosiect 30 mlynedd i drosglwyddo miloedd o bobl ac adeiladau o'r ddinas yng ngogledd pellaf y wlad.**



## PRIODAS FFION A JOE YN Y PRIORDY



**Pob dymuniad da iddynt**

**Criw'r Priordy ar daith ar hyd yr afon Tywi.**




**Heledd ap Gwynfor, Maer y Dref a Llynghesydd Porthladd Caerfyrddin gyda Meredydd o Ysgol Sul Y Priordy, Luned Voyle Thomas, Siryf y Dref, a'n Gweinidog, Caplan y Maer.**

***Gweler hefyd y Rhwydwaith***

## Ifanc@Gofalaeth

Croeso nôl i bawb wedi'r gwyliau! Gobeithio y cawsoch hwyl dros wythnosau'r haf. Rydym yn edrych ymlaen at ail-gychwyn tymor yr Ysgol Sul yn ystod mis Medi. Manylion isod.



# Chwilotair Medi
# Mynyddoedd y Beibl

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| R | L | W | G | P | A | R | A | N | E | R | I | R | I |
| H | D | N | A | O | N | A | R | A | D | H | B | I | O |
| E | N | I | N | O | E | G | I | R | N | N | E | S | I |
| R | I | M | N | N | T | B | E | E | O | S | O | R | R |
| M | E | L | E | O | R | R | R | L | I | O | T | R | S |
| O | S | A | B | N | I | C | R | A | E | I | A | S | E |
| N | I | P | O | A | A | A | R | M | S | R | R | A | S |
| A | N | A | L | R | A | I | T | I | O | P | A | A | O |
| A | A | N | M | A | G | E | A | D | L | D | R | I | S |
| O | I | E | G | I | O | R | B | I | E | E | A | N | E |
| A | L | S | L | R | R | O | O | E | W | A | Y | O | B |
| N | I | E | D | A | O | M | R | B | Y | O | A | O | R |
| P | A | M | L | E | I | P | A | R | D | L | D | R | E |
| D | O | W | M | A | N | A | I | S | D | R | A | D | M |

MOREIA
OLEWYDD
CARMEL
GILEAD
PISGA
PARAN
ARARAT
SINAI
SEION
HERMON
TABOR
NEBO

**Diolchgarwch!**
Oedfaon Teulu Sul cyntaf Hydref yn Y Priordy am 10.00 ac Elim am 11.30. Byddwn yn casglu nwyddau tuag at y Banc Bwyd.



Hwyl am y tro,

Beti-Wyn

# MABOLGAMPAU MIC YN NEUADD BRONWYDD











*Diolch i'r plant a fu'n cystadlu ac i a thrawon yr Ysgolion Sul a'r rhieni am ofalu amdanynt. Derbyniodd pob plentyn dystysgrif*



# A WYDDOCH CHI?
# FAINT O EGLWYSI, AELODAU, PLANT A PHOBL IFAINC SY GENNYM?
# CRYNODEB O YSTADEGAU'R EGLWYSI FESUL CYFUNDEB YN 2024

| RHIF | CYFUNDEB | EGLWYSI | AELODAU | PLANT A PHOBL IFAINC |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Llŷn ac Eifionydd | 19 | 446 | 60 |
| 2 | Gogledd Arfon | 21 | 831 | 153 |
| 3 | Dwyrain Dinbych a Fflint | 5 | 83 | 3 |
| 4 | Gorllewin Dinbych a Fflint | 7 | 143 | 29 |
| 5 | Maldwyn | 17 | 357 | 21 |
| 6 | Meirion | 20 | 777 | 133 |
| 7 | Môn | 18 | 415 | 53 |
| 8 | Ceredigion | 47 | 2439 | 139 |
| 9 | Gorllewin Caerfyrddin | 33 | 1999 | 274 |
| 10 | Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog | 40 | 2400 | 191 |
| 11 | Gogledd Morgannwg | 10 | 78 | 0 |
| 12 | Dwyrain Morgannwg | 19 | 1157 | 149 |
| 13 | Gorllewin Morgannwg | 34 | 1288 | 49 |
| 14 | Penfro | 24 | 877 | 48 |
| 15 | Llundain | 4 | 124 | 3 |
| | | | | |
| 2024 | CYFANRIF | 318 | 13,414 | 1,305 |
| | *cymharer* | | | |
| 2023 | CYFANRIF | 324 | 14,367 | 1,418 |
| 2022 | CYFANRIF | 341 | 14,982 | 1,605 |
| 2021 | CYFANRIF | 346 | 16,307 | 1,778 |

***Ffynhonnell***

***Undeb yr Annibynwyr Cymraeg***

***Tanysgrifiadau a Chyfrifon 2024 - Tŷ John Penri, Abertawe***




| CWIS Y DIARHEBION - ATEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | garreg | 6 | gelu |
| 2 | bwyta | 7 | melinydd |
| 3 | asgwrn | 8 | gallu |
| 4 | euog | 9 | tân |
| 5 | wragedd | 10 | cath |




**GWASANAETH DIOLCHGARWCH**
**CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 26 Medi 2025**
**2.30**
***gyda'n* Gweinidog**

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?
Trowch at: cyfundeb.com






**CYRDDAU DIOLCHGARWCH 2025**

(Sylwch bod y dyddiadau yn wahanol eleni i'r arfer oherwydd bod y Gweinidog dramor mewn cynhadledd am bythefnos ym mis Hydref)
*Byddwn yn casglu nwyddau i Fanc Bwyd Caerfydrdin yn ystod ein cyrddau diolchgarwch eleni.*

**Cana**
Iau 2 Hydref am 7.00
Pregethwr gwadd: Siôn Page
Swper iddilyn
Sul 5 Hydref am 1.30
Oedfa Deulu (Cymun)

**Priordy**
Sul 5 Hydref
Oedfa Deulu am 10.00
Oedfa Bregethu (Cymun) am 5.00
Pregethwr gwadd: Dr Fiona Gannon
Swper i ddilyn

**Elim**
Sul 5 Hydref
Oedfa Deulu (Cymun) am 11.30

**Bancyfelin**
Iau 9 Hydref a 7.00
Pregethwr gwadd: Llinos Jones
Swper i ddilyn
Sul 12 Hydref
Oedfa Deulu (Cymun) am 1.30

**Heol Awst**
Sul 12 Hydref am 10.00
Oedfa Ddiolchgarwch (Cymun) i Heol Awst, Elim a'r Priordy

**Y GYMDEITHAS'**
**~ RHAGLEN 2025/2026~**

**CROESO CYNNES I BAWB**

**Dydd Sul, 21 Medi 2025 yng NGWESTY'R LLWYN IORWG**
**Am 1.15 y prynhawn**
**CINIO SUL YR OFALAETH**

**NOS WENER, 3 HYDREF 2025 YNG NGHAPEL ELIM**
**Am 7 yr hwyr,**
**CYNGERDD yng nghwmni Côr Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn, Adran Ffynnnon-ddrain, Teulu Esther, Luned, Alaw a Leah, a Phlant Ysgol Sul Elim.**
**Llywydd: Brian Jones, Castell Howell**

**Nos Sul, 5 Hydref 2025 yng NGHAPEL Y PRIORDY**
**Am 5 o'r gloch yr hwyr**
**OEDFA DDIOLCHGARWCH gyda'n Gweinidog ac eraill.**
**Swper Cynhaeaf i ddilyn yn Festri'r Priordy**

**Dydd Mawrth, 21 Hydref 2025**
**Am 12 erbyn 12.30 y prynhawn**
**CINIO DIOLCHGARWCH yng NGWESTY'R HEBOG (FALCON)**

**Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2025**
**Am 2 o'r gloch y prynhawn**
**Ymweld ag EGLWYS SAN PEDR yng nghwmni Alun Lenny.**
**Paned o de i ddilyn yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg**

**Dydd Mawrth, 20 Ionawr 2026 yn FESTRI HEOL AWST**
**Am 2 o'r gloch y prynhawn**
**Yng nghwmni BRIAN JONES, CASTELL HOWELL**

**Dydd Mawrth, 17 Chwefror 2026 yn FESTRI HEOL AWST**
**Am 2 o'r gloch y prynhawn**
**Yng nghwmni RICHARD AC ELIN RHYS**

**Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2026 yng NGHLWB Y QUINS, Caerfyrddin.**
**Am 12 erbyn 12.30 y prynhawn**
**CAWL I DDATHLU GŴYL DEWI**
**Yng nghwmni'r Canwr GRUFFYDD WYN ROBERTS**

**NOS SUL, 22 MAWRTH 2026 AM 6 YR HWYR**
**CYNGERDD DATHLU 300 MLWYDDIANT CAPEL HEOL AWST**
**Artistiaid: CÔRAU YSGOL BRO MYRDDIN ac eraill.**

**Dydd Mawrth, 21 Ebrill, 2026**
**GWIBDAITH YR OFALAETH i ardal Eisteddfod y Garreg Las**

**Dydd Mawrth 19 Mai, 2026 yn FESTRI HEOL AWST**
**Am 2 o'r gloch y prynhawn**
**COFIO ANN GRIFFITHS (1776 -1805)**

**Dydd Sul, 21 Mehefin 2026**
**PERERINDOD YR OFALAETH**
**Croeso cynnes i bawb.**

**TRIP YR YSGOLION SUL I GAERDYDD I WELD JOSEFF A'I GOT AMRYLIW PAN OEDD AR DAITH YNG NGHANOLFAN MILENIWM CYMRU**



EIN cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Elwyn Morris (E) ac Eurig Thomas (HA). Cofion annwyl atoch i gyd.

Bu Heledd ap Gwynfor (P) ar Bore Cothi ar Radio Cymru yn sôn am ei swyddogaeth fel Maer Caerfyrddin ond hefyd ei rôl fel Llynghesydd y Porthladd sy’n dyddio’n ôl i gyfnod Harri 8fed.



Yn ein rhifyn diwethaf buom yn llongyfarch Gwern O’Leary a Sêr Caerfyrddin dan 15 ar ennill y dwbl, sef y Gynghrair a’r Cwpan. Ar ben hynny, mae Gwern wedi ennill gwobr Chwaraewr y Tymor gyda’r Sêr. Arbennig yn wir!



Mae sgwrs rhwng Heledd Mai Jones sy’n Llysgennad Clybiau Ffermwyr Ifainc Sir Gâr a Beti-Wyn, Arwyddfardd Gorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol, ar Bodlediad ein Gofalaeth. Cofiwch wrando! Da hefyd oedd clywed am Heledd yn cael llwyddiant yn y Sioe am farnu stoc da godro yng nghystadleuaeth Ffermwyr Ifainc Cymru.

Efallai bod rhai ohonoch sydd wedi bod yn dilyn tîm Menywod Cymru yn creu hanes wrth chwarae ym mhencampwriaeth EURO UEFA 2025 yn y Swistir wedi clywed sylwadau gan Dr Llinos a oedd ymhlith y cefnogwyr ar S4C.

Bu rhai o’n haelodau’r brysur yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Wrecsam. Ein Gweinidog oedd Arwyddfardd yr Orsedd, roedd Menna Elfyn (P) yn un o’r beirniaid yng nghystadleuaeth y Gadair, bu Myfanwy Jones (P), Cyfarwyddwr ar Fentrau Iaith Cymru, yn cynnal sgwrs am waith y Mentrau iaith gyda phobl ifainc ar draws Cymru ym Mhabell y Cymdeithasau, traddododd Aled Evans ei gerdd o deyrnged yn ystod seremoni cyflwyno Medal R Alun i Wenna Bevan Evans am wneud cyfraniad gwirioneddol i gefnogi, cynnal a chyfoethogi diwylliant ei hardal leol. Bu’n fuddugol hefyd ar Englyn y Dydd yn y Babell Lên. Enillodd Gwilym Dyfri

Jones (HA) gystadleuaeth ysgrifennu agoriad nofel, addas ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ac roedd Angharad Wyn (P) yng Nghôr Llanddarog a wnaeth mor dda yng Nghystadleuaeth y Corau Cymysg gan ddod yn ail.

Bu Heledd ap Gwynfor, Catrin a Rhiannon Jones ar Troi'r Tir ar Radio Cymru yn cyfarch Pantri Blakeman sy'n dathlu pen-blwydd arbennig eleni, yn 25 oed.

Clywyd Brian Walters (E) yn siarad am y Diciâu ar Newyddion Radio Cymru yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol.



Llongyfarchiadau i Edna Morris (E) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig. Pob dymuniad da!

Llongyfarchiadau i Gareth Davies (E) ar ddod yn hen dad-cu a Heulwen (E) ar ddod yn fam-gu yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r teulu cyfan!



Llongyfarchiadau i Manon a Jeremy Kynaston ar enedigaeth Mali Ceridwen, chwaer fach newydd i Efa a wyres newydd i Tom ac Anona Defis.



Llongyfarchiadau i Carys Hopley (HA) a Dean Lewis ar achlysur eu dyweddïad. Pob hapusrwydd iddynt.



Ein dymuniadau gorau i Lloyd a Sheila Thomas (HA) sy'n dathlu eu priodas ddeiamwnt y mis hwn oddi wrthym i gyd.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Hydref i'n Gweinidog neu Alun Charles

**SINEMA SBESIAL**
**9 Hydref 2025 – Yr Egin - 7**



**Oed Yr Addewid *(Do Not Go Gentle)***
**Cyfarwyddwr ac Awdur: Emlyn Williams**
**Cynhyrchydd: Alun Ffred Jones**
**Tocyn: £6**

## CYDYMDEIMLAD

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â nifer o deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar:**

**Miriam Wyrwoll (P) ar golli'i brawd a Carys Morgans ei hewythr, Tom Thomas, Gors Las (Bysus Brodyr Williams).**

**Sulwyn Thomas (P) ar golli'i gyfnither Gillian Sowerby, East Grimstead.**

**Bet Jones (E) ar golli'i chwaer yng nghyfraith Enid Davies, Llandeilo.**

**Cara Rogers (P) ar golli'i thad, David Huw (Dai) Rogers, Caerfyrddin.**

**Trist gennym glywed am farwolaeth Emyr Jones (E) a fu'n derbyn gofal arbennig yng Nghartref Awel-y-môr, Gorseinon, ers sawl blwyddyn. Bydd ei angladd yn breifat yn ôl ei ddymuniad. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i deulu. Bydd teyrnged iddo yn ein rhifyn nesaf.**

**Clywsom hefyd am golli Elinor Davies,Tŷ Nant, Heol y Coleg gynt, yng Nghaerdydd. Cofiwn yn ddiolchgar am ei gwasanaeth yn Ysgol Sul y Priordy am flynyddoedd lawer ac am weithgarwch ei diweddar ŵr, John, fel Ysgifennydd y Priordy.**

**Cofiwn amdanoch i gyd yn eich galar a'ch hiraeth.**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**
**CWRDD CHWARTER**
**CAPEL PANT-TEG (FELIN-WEN)**
**Bore Dydd Iau - 11 Medi 2025 - 10.30**
**Un Cyfarfod**
***Croeso cynnes i bawb***



## Y ddiweddar Rose Mathias



A ninnau wedi mwynhau gweld llun o Rose yn rhifyn Gorffennaf/Awst o Bapur yr Ofalaeth ar ddydd ei phen-blwydd yn 90 oed, tristwch oedd clywed ei bod wedi gwaelu o fewn diwrnodau i'r diwrnod mawr hwnnw, ac wedi'n gadael yn dawel ar 10 Gorffennaf yn Ysbyty Glangwili.

Un o blant Trevaughan oedd Rose, wedi ei magu ar Fferm Mile End, ac ar yr aelwyd honno y cyflwynwyd gwerthoedd gorau bywyd iddi a hynny'n cynnwys bod yn rhan o deulu'r Ffydd yn Elim, Ffynnon-ddrain.

Bu Rose yn gweithio am rai blynyddoedd fel teleffonydd gyda'r GPO ac yna gyda'r Cyngor Sir lle rhoddodd 22 mlynedd o wasanaeth ffyddlon gan ateb galwadau ffôn yn siriol a chynorthwyol. Fe fydd nifer yn ei chofio hefyd yn gweithio ar stondin Cigydd Dai Rees ym Marchnad Caerfyrddin, gan weini'n siriol ar y cwsmeriaid i gyd.

Cofiwn amdani yn byw yn Arfron ac yna symud i fod yn rhan o gymdogaeth glos Llys Ffynnon lle bu'n croesawu ffrindiau a chymdogion i'w haelwyd gyda'i serchogrwydd arferol.

Diolch yn fawr iawn i aelodau Elim a fu'n ymweld â hi yn ffyddlon, ac er nad oedd Rose yn medru mynychu Elim mwyach, cofiwn gyda diolchgarwch am ei ffyddlondeb yn y gorffennol, yn enwedig i Gymdeithas Chwiordydd Elim. Roedd wrth ei bodd yn darllen y papur misol.

Daeth cynulleidfa barchus i Elim ddydd Mawrth 12 Awst i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'I gwaith cyn ymlwybro'n dawel i Amlosgfa Parc Gwyn. Daearwyd ei llwch ar dir Amlosgfa Parc Gwyn bnawn Gwener, 15 Awst mewn oedfa breifat. Gwasanaethwyd ar y ddau achlysur gan ei Gweinidog.

Estynnnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Rhodri, Rhuddian a'r cysylltiadau teuluol i gyd.
Diolchwn i Dduw am 'Rhosyn' annwyl iawn a ddaeth â'I lliw a'i phersawr i lonni bywydau cymaint ohonom a gafodd y fraint o fod yn eich chwmni.

Ein Gweinidog

**Y ddiweddar Miss Margaret Jones**



**Gyda thristwch y clywsom am golli Margaret yn ddisymwyth ar ei haelwyd yn Nhŷ Rhys ar 18 Mehefin 2025.**

**Magwyd Margaret, ynghyd â'i brawd Gareth a'i chwaer Iona yn Abergwili.**

**Cafodd yrfa hir a llwyddiannus ym Manc Lloyds, ac roedd yn un o selogion yr aduniadau o gyn aelodau staff y banc.**

**Roedd gan Margaret nifer o ddiddordebau yn cynnwys dilyn criced, rygbi a theithio. Roedd ganddi hoffter hefyd o gerddoriaeth glasurol a byd natur. Roedd yn wraig wybodus a phleser bob amser oedd rhannu sgwrs â hi.**

**Cofiwn amdani fel gwraig smart a thrwsiadus a oedd wastad yn edrych ar ei gorau. Roedd yr un graen ar bob cyfrifoldeb y byddai'n ymgymryd ag e, a hynny'n cynnwys trefnu ei hangladd gyda chryn fanylder.**

**Bu'n ffyddlon i'r Priordy tan i'w hiechyd ei dal yn ôl, ond roedd ganddi diddordeb mawr ym mywyd yr eglwys o hyd ac yn hael iawn ei chefnogaeth.**

**Gwerthfawrogodd yn fawr ymweliadau misol y tîm ymweld a Phapur yr Ofalaeth. Roedd yn wyliwr cyson o'r oedfa ddigidol gan ei wylio ddwy neu deirgwaith ar y Sul! Cofiwn am ei gofal mawr o Gareth, ei brawd, a'i hawydd i wneud, hyd eithaf ei gallu, ei gorau dros eraill.**

**Cynhaliwyd oedfa breifat yn ôl ei dymuniad yn Amlosgfa Llanelli ar ddydd Iau 17 Gorffennaf.**

**Claddwyd ei llwch ymhen rhai dyddiau ym medd y teulu ym mynwent Capel Ebeneser, Abergwili. Gwasanaethwyd ar y ddau achlysur gan ein Gweinidog.**

**Coffa da am Margaret – urddasol a chyfeillgar.**

**Ein Gweinidog**

## Y diweddar Alwyn Jones



Trist gennym nodi colli Alwyn Jones a fu farw'n dawel ar 30 Gorffennaf yng Nghartref Erw Hiw, Caerfyrddin.

Wedi ei eni ym Methel a'i fagu ym Montnewydd, roedd Alwyn yn fab annwyl y diweddar Edwin a Margaret Humphreys Jones.

Treuliodd ei yrfa fel peiriannydd sifil a syrfëwr meintiau yng ngogledd ddwyrain Lloegr, Manceinion a Worthing cyn symud i Gaerfyrddin yn 1987 a sefydlu Cartref Gofal Erw Hir, gyda Mary, ei briod.

Rhoddodd flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i Gyfeillion Ysbyty Glangwili, ac roedd yn aelod uchel ei barch o Gôr Meibion Caerfyrddin.

Cofiwn amdano gyda diolchgarwch am ei ffyddlondeb i'r oedfaon yn Y Priordy ac hefyd am iddo ymroi i gael ei gydnabod yn bregethwr cynorthwyol cydnabyddedig gan Undeb yr Annibynwyr a gwasanaethu mewn nifer o gapeli ar hyd a lled y wlad yn pregethu'r Gair o Sul i Sul.

Roedd Alwyn bob amser yn barod iawn i gynorthwyo gyda'r oedfaon yn y Priordy a'r Ofalaeth.

Estynnwn ein cydymdeilad dwysaf â Mary, Gareth, Siân a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Yn dilyn oedfa breifat yn yr Amlosgfa ar ddydd Mawrth 26 Awst, daeth cyfeillion ynghyd i Gapel Gorffwys Login i oedfa i ddiolch am ei fywyd a'i waith.

Yn absenoldeb ein gweinidiog a oedd i ffwrdd ar wyliau, gwasanaethwyd gan Y Parchg Eurfyl Howells, Caplan Ysbyty Glangwili, a ffrind agos i'r teulu.

Diolch i Euryl am ei weinidogaeth a diolch i Dduw am Alwyn ac am y fraint o'i adnabod.

Ein Gweinidog

# DYLETSWYDDAU

| ROTA YMWELWYR<br>ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| MEDI / HYDREF | | | | | |
| E | Aelodau | HA | Aelodau | P | Medi / Hydref - Ein Gweinidog |

| HEOL AWST<br>DYLETSWYDDAU'R SUL | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | Rhian Jones<br>Nigel George | Hydref | Ernest Jones<br>Dave Thomas |

| CAPEL ELIM | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BLODAU | | | | | |
| Medi | 7 | Pat Davies | Hydref | 5 | Carwen Davies |
| Medi | 21 | Bet Jones | Hydref | 19 | Claire Thomas |

| PARATOI'R BWRDD CYMUN | | |
|---|---|---|
| Medi | 7 | Bet Jones |
| Hydref | 5 | Amanda Rees Davies |

| PRIORDY<br>GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | | Hydref | |
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Elinor W Reynolds | Adrian Evans | Sulwyn Thomas | Philip Jones |

| BLODAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi | 7 | Eurwen Jones | Hydref | 5 | Hilary Kynaston |
| | 14 | | | 12 | |
| | 21 | Gloria Evans | | 19 | Meleri Ll O'Leary |
| | 28 | | | 26 | |

## PARATOI'R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | 7 | Bore | Eleri Thomas a Delyth Davies |
| Hydref | 5 | Hwyr | Llinos Jones ac Elen Marks |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi | 7 | Catrin Ann Thomas | Hydref | 5 | Y Plant |
| | 14 | Y Plant | | 12 | Emlyn Schiavone |
| | 21 | Heledd Tomos | | 19 | Meleri Ll O'Leary |
| | 28 | Alwen Owen | | 26 | Gareth Gravell |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Medi | Tim Hayes | Hydref | Dennis Jones |

**BORE COFFI McMILLAN**
***Yn rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd***

**Dydd Gwener 19 Medi 2025**

**Clwb y Cwins, Abergwili**
**9.30 tan 12.00**

**Mynediad am ddim**

**Stondinau**
**Raffl**

**Croeso i bawb**

***Trefnwyd gan Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin***
***Cyswllt: Alison Parsons 07860 781148***

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**

# SULIADUR YR OFALAETH – MEDI / HYDREF 2025



| Dyddiad | 10.00 | 11.30 | 3.00 | 5.00 neu 7.00 |
|---|---|---|---|---|
| **Medi 7** | Priordy©<br>Gweinodog | Elim © (+HA)<br>Gweinidog | | Rihyrsal Cymanfa Ganu am 5.00 yn festri'r Tabernacl |
| ***Medi 14*** | Priordy – Oedfa Deulu<br>Gweinidog | | Heol Awst © (+E, P)<br>Cyrddau 1/2 blynyddol<br>Canon Eileen Davies a'n Gweinidog | Rihyrsal Cymanfa Ganu am 5.00 yn festri<br>Heol Awst |
| **Medi 21** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth<br>1.15 Llwyn Iorwg | |
| **Medi 28** | Priordy<br>Gweinidog | | | Heol Awst<br>Cymanfa Ganu 5.00 |
| **Hydref 2 (Iau)** | | | | Cana 7.00<br>Diolchgarwch a Swper |
| **Hydref 5** | Priordy<br>Oedfa Deulu<br>Diolchgarwch<br>Gweinidog | Elim © (+HA)<br>Oedfa Deulu<br>Diolchgarwch<br>Gweinidog | | Priordy© (+HA, E)<br>Diolchgarwch<br>Dr Fiona Ganon<br>a'n Gweinidog. Swper |
| **Hydref 9 (Iau)** | | | | Bancyfelin 7.00<br>Diolchgrawch a Swper |
| **Hydref 12** | Heol Awst © (+ E, P)<br>Oedfa Diolchgarwch<br>Yr aelodau | | | |
| **Hydref 19** | Priordy<br>Aelodau | Elim (+HA)<br>Aelodau | | |
| **Hydref 26** | Priordy<br>Alun Charles & aelodau<br><br>Heol Awst<br>Emyr Gwyn Evans | | | |

## AMSERLEN YR YSGOL SUL
## MEDI / HYDREF 2025



**Elim**
**Medi 7 – Ysgol Sul**
**Medi 14 – Ysgol Sul**
**Medi 21 – Ysgol Sul**
**Medi 28 – Ysgol Sul**
**Hydref 5 – Oedfa Deulu**
**(Diolchgarwch)**

**Y Priordy**
**Medi 14 – Oedfa Deulu**
**Medi 21 – Ysgol Sul**
**Medi 28 – Ysgol Sul**
**Hydref 5 – Oedfa Deulu**
**(Diolchgarwch)**



## LLONGYFARCHIADAU

**Llongyfarchiadau mawr i'n pobl ifainc ar eu llwyddiant yn yr arholiadau allanol yr haf hwn. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd! Ein dymuniadau da i chi yn eich cam nesaf ym myd addysg, boed mewn ysgol, coleg neu brentisiaeth. A'r un llongyfarchiadau hefyd i Elain Owen, Gwenan Jones a Gwenllian Howells (P) sydd newydd raddio. Ardderchog!**





## DIOLCH YN FAWR

**Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.**

## CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR
## EIN GOFALAETH

| | | | |
|---|---|---|---|
| ELIM | Prynhawn Mercher 17 Medi | 1.30 | Capel Elim |
| HEOL AWST | Prynhawn Mercher 24 Medi | 2.00 | Festri Heol Awst |
| Y PRIORDY | Nos Lun 15 Medi | 7.30 | Festri'r Priory |

# Cymanfa Ganu Undebol Caerfyrddin a'r Cylch



**NOS SUL 28 MEDI 2025 – 5 PM**

**Capel Heol Awst Caerfyrddin SA31 3AP**

**Arweinydd**

**Pat Jones, Caerfyrddin**

**Organydd**

**Meirion Wynn Jones, Caerfyrddin**

**Ceir dwy eitem gan Gôr Seingar**

**Rihyrsals fel y ganlyn**

**Nos Sul, 7 Medi 2025 am 5**
**Festri'r Tabernacl.**
**Arweinydd: Helen Gibbon**
**Cyfeilydd: Meredydd Edwards**

**Nos Sul, 14 Medi, 2025 am 5**
**Capel Heol Awst**
**Y Brif Rihyrsal**
**Arweinydd: Pat Jones**
**Organydd: Meirion Wynn Jones**

***Rhaglenni'r Gymanfa – £3 (Hen Nodiant neu Sol-ffa)***
***Ar gael gan Huw Michael (P), Olga Williams (HA) ac Elisabeth Evans (E)***

**Adran Oedolion: 1. Llandaf 2. Bro Aled 3. Glan y Nant 4. Morning Light 5. Rhos 6. Pen yr yrfa 7. Brynawel 9 Blodwen 10. Newyddion Braf 11. Addfwynaf Frenin 12. Mater Christi**